ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Creu Lluniau

TGCh Blwyddyn 2

Trosolwg o'r Uned hon:
Bydd y plant yn archwilio nodweddion pecyn Graffeg i greu lluniau a phatrymau. Bydd cyfleoedd ganddynt i gyfuno offer Siâp a Llif Lenwi a byddant yn defnyddio ystod gynyddol o offer ac effeithiau i ddatblygu a mireinio eu lluniau. Maent yn gallu siarad am waith a rhannu syniadau ag eraill, gwybod sut i argraffu eu gwaith a Chadw ac Adalw gyda chymorth.

Maent yn gallu tynnu delweddau gyda chamera digidol a defnyddio ffotograffau fel sbardun ar gyfer eu gwaith celf eu hunain. Gellir arddangos delweddau a ffotograffau plant a'u defnyddio ar gyfer trafodaethau dosbarth a dathlu ar Fwrdd gwyn rhyngweithiol.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau: Defnyddio pecyn graffeg i greu lluniau a phatrymau gan ddefnyddio ystod o offer. Maent yn Cadw ac Adalw eu gwaith gyda chymorth ac yn gwybod sut i argraffu lluniau. Maent yn gallu tynnu lluniau gyda chamera digidol.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: Creu lluniau a phatrymau mewn pecyn Graffeg gan ddefnyddio ystod gyfyngedig o offer ac mae'n bosibl y bydd angen help arnynt i Gadw ac Adalw eu gwaith.

Bydd rhai disgyblion hefyd yn gallu: Defnyddio pecyn Graffeg gyda hyder gan ddefnyddio ystod eang o offer ac effeithiau i ddatblygu a mireinio eu gwaith ac maent yn gallu Cadw ac Adalw eu gwaith gyda chymorth. Maent yn gallu argraffu a siarad am eu gwaith a rhannu syniadau ag eraill. Maent yn dangos gofal tuag at offer ac yn gallu gweithio gydag eraill i dynnu lluniau gyda chamera digidol fel rhan o dasg gydweithiol.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol (PSDWBCD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (WLD)	Datblygiad Creadigol (CD)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (LLC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (KUW)	Chwarae yn yr Awyr Agored (OP)
Datblygiad Mathemategol (MD)	Datblygiad Corfforol (PD)	Chwarae Rôl (RP)

PSDWBCD LL MD WLD KUW PD CD OP RP

Asesiad yr Athro/Athrawes: *Dylai'r sgiliau a ddangosir gan y plant ffurfio rhan o asesiad parhaus.*
Dylid tracio a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol a'i ddefnyddio i gyfrannu at gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun gwaith hwn.

Blwyddyn 2 **Creu a Chyfathrebu Gwybodaeth**

Creu Lluniau

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu cyfuno offer Siâp a Llif Lenwi mewn pecyn graffeg i greu patrymau.		Bydd y plant yn creu patrymau a lluniau gan ddefnyddio cyfuniad o offer Siâp mewn pecyn graffeg gyda Llif Lenwi. Annog y plant i siarad am eu lluniau gan ddefnyddio geirfa siâp a lliw'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.	Siapiau Lliwiau Llinellau Patrymau	Meddalwedd Graffeg/ Paent	
Yn gallu siarad am waith a rhannu syniadau ag eraill.		Trafod enghreifftiau o waith Artistiaid o Gymru fel Sarah Hopkins a Ceri Richards. Edrych ar ddefnydd yr artist o liw, llinell, siâp, ffurf a gwead. Gofyn i'r plant ystyried sut a pham mae rhai nodweddion penodol yn effeithiol. Dangos Yellow Islands' gan Jackson Pollock i'r dosbarth. Trafod y patrwm rhythmig a grëir gan y llinellau du llyfn. Gofyn i'r plant pa liwiau ar wahân i ddu sy'n sefyll allan a pham y gelwir y peintiad yn 'Yellow Islands'. Dangos sut y gellir mynd â llinell ddu am 'dro' o gwmpas y sgrin. Cymharu'r effeithiau a grëir gan linellau llyfn a llinellau onglog. Dangos i'r plant sut i ddewis a defnyddio'r offeryn llif lenwi i wneud 'ynysoedd' lliw o fewn llun. Dangos enghreifftiau o waith Mondrian i'r dosbarth a nodi'r prif nodweddion – llinellau llorweddol a fertigol, lliwiau sylfaenol a gofod gwyn. Gofyn i'r plant greu lluniau yn arddull Mondrian gan ddefnyddio offer llinell syth ac arlunio siâp. Gofyn iddynt arbrofi gyda lliw gan ddefnyddio'r offeryn llif lenwi. Gallent	Artist Lliw Siâp Gwead Patrymau Llun	Meddalwedd paent Enghreifftiau o waith artistiaid Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol Mondrian Slide show	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
		canlyniadau.			
Yn gallu defnyddio ystod gynyddol o offer ac effeithiau i ddatblygu a mireinio lluniau.		Gofyn i'r plant greu eu gwaith celf eu hunain yn arddull artist gan ddefnyddio dulliau traddodiadol a TGCh. (Ystyried gwaith artistiaid o Gymru neu'r Cwricwlwm Cymreig.) Gofyn i'r dosbarth gymharu arddulliau gwahanol ac adnabod gwaith artist y gellid ei gopïo'n effeithiol ar gyfrifiadur. Wrth greu eu lluniau, dylai'r plant ddangos hyder i ddefnyddio ystod eang o offer fel offeryn chwistrellu, stampiau ac effeithiau a ddiffiniwyd yn flaenorol. Gofyn i'r plant greu lluniau o olygfeydd nos. Gofyn iddynt ddefnyddio'r offeryn llif lenwi i greu sgrin ddu ac yna defnyddio offer gwneud marc a lliwiau amrywiol i archwilio ansawdd y golau a'r lliw ar y sgrin. Mae lluniau tân gwyllt yn hwyl ar gyfer yr uchod.	Lliw Paent Offer Gwefan Oriel	Meddalwedd paent Enghreifftiau argraffedig o waith artistiaid Gwefannau o waith artistiaid Bwrdd gwyn rhyngweithiol	
Yn gallu cadw ac adalw eu gwaith gyda chymorth.		Annog y plant i gadw eu gwaith eu hunain gyda chymorth. *(Mae meddalwedd sy'n galluogi'r plant i gadw eu gwaith eu hunain, lywio i'w ffolder gwaith disgyblion yn syrthio i'r categori hwn.)*	Cadw Adalw	Meddalwedd graffeg / paent	

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgaredd a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Yn gallu tynnu delweddau gyda chamera digidol.		Gall camera digidol fod yn offeryn da fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth a datblygu eu gwaith celf eu hunain ar bortreadau neu dirluniau etc. Annog y plant i dynnu eu lluniau eu hunain. Gellir defnyddio'r lluniau hyn ar fwrdd gwyn rhyngweithiol fel rhan o drafodaeth. Gellid eu defnyddio hefyd i wella darn o destun ysgrifenedig.	Camera digidol Delwedd Tirlun Portread Bywyd llonydd Gwrthrych	Camera digidol Argraffydd Bwrdd gwyn rhyngweithiol Cyfrifiadur	